CBAC
WJEC

# TAG CYNLLUNIAU MARCIO

## DRAMA AC ASTUDIAETHAU THEATR UG/UWCH

## IONAWR 2012

**RHAGARWEINIAD**

Y cynlluniau marcio a ganlyn yw'r rhai a ddefnyddiwyd gan CBAC ar gyfer arholiad Ionawr 2012 TAG DRAMA AC ASTUDIAETHAU THEATR. Penderfynwyd arnynt yn derfynol yn dilyn trafodaeth fanwl mewn cynadleddau arholwyr gan yr holl arholwyr oedd yn ymwneud â'r asesiad. Cynhaliwyd y cynadleddau yn fuan ar ôl sefyll y papurau fel y gellid cyfeirio at yr amrediad llawn o ymatebion ymgeiswyr, gyda sgriptiau wedi'u llungopïo yn sail i'r drafodaeth. Amcan y cynadleddau oedd sicrhau bod y cynlluniau marcio wedi'u dehongli a'u cymhwyso yn yr un modd gan yr holl arholwyr.

Gobeithir y bydd y wybodaeth hon o gymorth i ganolfannau ond cydnabyddir ar yr un pryd y gallai fod gan athrawon safbwyntiau gwahanol ynglŷn â manylion neu ddehongli gan nad ydynt wedi bod yn rhan o'r gynhadledd farcio.

Mae'n flin gan CBAC ond nid oes modd iddo ymgymryd ag unrhyw drafodaeth na gohebiaeth am y cynlluniau marcio hyn.


| **Uned** | **Tudalen** |
|---|---|
| DA2 | 1 |
| DA4 | 7 |

**TAG DRAMA AC ASTUDIAETHAU THEATR**

**CYNLLUN MARCIO DA2 – IONAWR 2012**

Dylai arholwyr nodi y dylen nhw fod yn hyblyg yn eu dull o ymdrin ag atebion. Mae'r cynnwys dangosol yn ganllaw ynghylch yr hyn y gallai ymgeiswyr ei gynnwys yn eu hatebion. Gallai rhai ymgeiswyr ymdrin â'r cwestiwn mewn ffordd wahanol. Mae angen i'r atebion hyn gael eu marcio'n gadarnhaol.

Yn y tair adran, bydd marciau'n seiliedig ar y gridiau lefelau cyrhaeddiad sy'n dilyn.

## ADRAN A

***The Spanish Tragedy***
- Cyd-destun yr olygfa o fewn y ddrama.
- Cyd-destun hanesyddol.
- Amodau perfformio gwreiddiol.
- Math o lwyfan – prosceniwm, ymwthiol, crwn, ar draws, arall.
- Arddull set – naturiolaidd, symbolaidd, minimalistaidd, mynegiannol, arall.
- Lleoli'r set.
- Goleuo – defnyddio lliw, math o olau, ffynhonnell golau.
- Goleuo i greu'r awyrgylch – gwella'r hyn sy'n digwydd?
- Sain – byw/wedi'i recordio – gwella'r hyn sy'n digwydd?
- Gwisg – cysylltu â chysyniad y dyluniad?
- Cyfeirio testunol.
- Cysylltu â'r olygfa.

***The Country Wife***
- Cyd-destun yr olygfa o fewn y ddrama.
- Cyd-destun hanesyddol.
- Amodau perfformio gwreiddiol.
- Ymwybyddiaeth o gysyniad.
- Math o lwyfan – prosceniwm, ymwthiol, crwn, ar draws, arall.
- Arddull set – naturiolaidd, symbolaidd, minimalistaidd, mynegiannol, arall.
- Goleuo – defnyddio lliw, math o olau, ffynhonnell golau.
- Goleuo i greu'r awyrgylch – gwella'r hyn sy'n digwydd?
- Sain – byw/wedi'i recordio – gwella'r olygfa?
- Gwisg – cysylltu â chysyniad y dyluniad?
- Cyfeirio testunol.
- Cysylltu â'r olygfa.

***Yr Hwyaden Wyllt***
- Cyd-destun yr olygfa o fewn y ddrama.
- Cyd-destun hanesyddol.
- Amodau perfformio gwreiddiol.
- Ymwybyddiaeth o gysyniad.
- Math o lwyfan – prosceniwm, ymwthiol, crwn, ar draws, arall.
- Arddull set – naturiolaidd, symbolaidd, minimalistaidd, mynegiannol, arall.
- Goleuo – defnyddio lliw, math o olau, ffynhonnell golau.
- Goleuo i greu'r awyrgylch – gwella'r hyn sy'n digwydd?
- Sain – byw/wedi'i recordio, gwella'r olygfa?
- Gwisg – cysylltu â chysyniad y dyluniad?
- Cyfeirio testunol.
- Cysylltu â'r olygfa.

**ADRAN B**

***Y Cadeiriau***

- Cyd-destun yr olygfa.
- Cyfeirio at y ffordd y perfformiwyd y ddrama yn wreiddiol.
- Cyfeirio testunol.
- Math o lwyfan
- Lleoliad dodrefn/offer.
- Safleoedd yr actorion ar y dechrau ac ar y diwedd.
- Mae'r ddau yn ymbil ar yr Ymerawdwr (cymeriad dychmygol) i aros nes i'r Areithydd gyrraedd.
- Yr Hen Ŵr yn ymbil am faddeuant yr Ymerawdwr.
- Yr Hen Wraig yn wylo ac yn dweud "Wrth eich traed, f'Arglwydd".
- Y ddau yn mynd yn fwyfwy petrusgar y bydd yr Ymerawdwr yn gadael.
- Mae'r ddau yn aros yn ddisgwylgar i'r Areithydd gyrraedd.
- Mae'r Hen Ŵr yn dweud stori i dawelu diffyg amynedd cynyddol yr Ymerawdwr.
- Mae'r cyfarwyddiadau llwyfan yn cyfeirio at yr Hen Wraig yn ailadrodd geiriau'r Hen Ŵr; efallai y bydd ymgeiswyr eisiau awgrymu/adlewyrchu hyn drwy gael yr Hen Wraig hefyd yn 'ailadrodd' symudiadau'r Hen Ŵr.
- Y cynnydd hyd at yr adeg y bydd yr Areithydd yn cyrraedd – cyffro/disgwyl cynyddol.
- Yr adeg mae'n dod i mewn – daw i mewn trwy ddrws 5; mae fel petai heb sylwi ar y cymeriadau eraill.
- Mae'r cyfarwyddiadau llwyfan yn crybwyll tawelwch a llonyddwch yr Hen Ŵr a'r Hen Wraig.
- Eu rhyddhad a'u llawenydd ei fod wedi cyrraedd a'i fod yn berson go iawn.
- Yr Hen Wraig yn syllu ar yr Areithydd yn gyson, yn dilyn pob symudiad mae e'n ei wneud.
- Mae'r Areithydd yn cyfarch yr Ymerawdwr anweledig; mae'r cyfarwyddiadau llwyfan yn crybwyll ei fod wedyn yn esgyn i blatfform uchel ac yn cyfarch ei gyhoedd anweledig.
- Rhesymau a roddir dros unrhyw syniadau.

***Awr y Plant***

- Cyd-destun yr olygfa.
- Cyfeirio at y ffordd y perfformiwyd y ddrama yn wreiddiol.
- Cyfeirio testunol.
- Math o lwyfan.
- Lleoliad dodrefn/offer.
- Safleoedd yr actorion ar y dechrau ac ar y diwedd.
- Cwymp dramatig Mary er mwyn cael sylw/cydymdeimlad.
- Nid yw Karen yn cael ei thwyllo gan gynllun Mary.
- Mae Karen yn cario Mary o'r llwyfan – gadael – ble?
- Daw Martha i mewn – o ble? Mae'r cyfarwyddiadau llwyfan yn crybwyll ei bod hi'n cario dau lyfr ac yn eu rhoi nhw ar silff isaf cwpwrdd llyfrau ac yn cymryd pensil o flwch.
- Mae'r cyfarwyddiadau llwyfan yn crybwyll ei bod hi'n fenyw nerfus a gor-sensitif. Dylai symudiadau adlewyrchu'r disgrifiad hwn ohoni.
- Daw Karen i mewn – o ble?
- Difaterwch Karen ynghylch ymddygiad Mary.
- Mae Karen yn tanio sigarét.
- Mae dicter cynyddol Martha tuag at Mary yn amlwg.
- Awyrgylch ymlaciol rhwng y cymeriadau.
- Mae dangos hoffter yn bwysig – mae Martha'n taro braich Karen yn ysgafn.
- Mae'r cyfarwyddiadau llwyfan yn crybwyll bod Karen yn dechrau cywiro papurau arholiad. Mae Karen yn cyfeirio at y papurau yn ystod yr olygfa.
- Daw rhwystredigaeth a siom cynyddol Martha yn amlwg o ganlyniad i briodas Karen a Joe sy'n nesáu.
- Mae Karen ychydig yn ddifrïol tuag at Martha; mae'n dechrau colli amynedd â hi.
- Mae Martha'n ddig gan ei bod hi'n credu y bydd Karen yn ymadael â'r ysgol.
- Rhesymau a roddir dros unrhyw syniadau.

***Bryniau'r Glas-Atgofion***

- Cyd-destun yr olygfa.
- Cyfeirio at y ffordd y perfformiwyd y ddrama yn wreiddiol.
- Cyfeirio testunol.
- Math o lwyfan.
- Lleoliad dodrefn/offer.
- Safleoedd yr actorion ar y dechrau ac ar y diwedd.
- Mae'r cyfarwyddiadau llwyfan yn crybwyll nad ydyn nhw braidd byth yn aros yn llonydd.
- Mae'r ddau yn giglan ac wedi'u cyffroi.
- Mae hyn yn cynyddu i chwerthin afreolus wrth iddyn nhw rolio o gwmpas heb reolaeth.
- Ymwybyddiaeth o ymddygiad mam Donald; tawelwch; ychydig o dyndra.
- Maen nhw'n rhedeg ac yn neidio trwy'r goedwig.
- Dadlau plentynaidd yn dilyn.
- Peter yn bygwth Willie.
- Peter yn gweld gwiwer ac yn rhedeg ar ei hôl.
- Y ddau yn rhedeg ar ôl yr anifail, gan ddynwared Indiaid Cochion.
- Y ddau yn flinedig ar ôl y rhedeg.
- Y ddau wedi'u cyffroi ynghylch y gobaith o ddychryn y wiwer.
- Maen nhw'n dechrau mynd o amgylch y goeden.
- Daw John a Raymond i mewn – o ble?
- Rhoi rhesymau dros unrhyw syniadau.

**Y Ffin**

- Cyd-destun yr olygfa.
- Cyfeirio at y ffordd y perfformiwyd y ddrama yn wreiddiol.
- Cyfeirio testunol.
- Math o lwyfan.
- Lleoliad dodrefn/offer.
- Safleoedd yr actorion ar y dechrau ac ar y diwedd.
- Mae'r ddau yn mynd i mewn i'r 'cwt' am y tro cyntaf.
- Nid yw'n gwneud argraff ar Wilias.
- Nid yw'n gwneud argraff ar Now.
- Dylai agwedd gadarnhaol Wilias gael ei hadlewyrchu a dylai hyn gyferbynnu â negyddoldeb Now.
- Mae Wilias yn camu ar hyd yr ystafell.
- Mae Wilias wedi ffieiddio ynglŷn â sylwadau negyddol Now ynghylch 'gneud 'n busnes fan hyn'.
- Mae Wilias yn pwdu ac yn dechrau digio.
- Nid yw Now yn ymateb i hyn ar y cychwyn, ond mae'n mynd yn eithaf dig am na fydd Wilias yn ei ateb.
- Maen nhw'n dadlau ynghylch addasrwydd yr annedd.
- Yr awyrgylch yn ysgafnhau wrth iddyn nhw ddechrau cellwair ynghylch yr arch.
- Mae hyn yn cynyddu'n chwerthin afreolus.
- Hwyl Wilias yn newid ar unwaith wrth i Now grybwyll dod o hyd i rywle arall i fyw.
- Maen nhw'n trafod eu cyfeillgarwch a sut maen nhw'n gofalu am ei gilydd.
- Now yn cynhyrfu.
- Mae'r ddau yn cytuno i fod yn gefn i'w gilydd beth bynnag a ddaw.
- Cyfeillgarwch tanbaid/clòs.
- Rhoi rhesymau dros unrhyw syniadau.

**ADRAN C**

- Enw'r cynyrchiadau, y dyddiad a welwyd, y lleoliadau.
- Dehongliad yr actorion o'u rôl.
- Arddull actio.
- Cymeriadu lleisiol.
- Cymeriadu corfforol.
- Y rhyngweithio rhwng yr actorion.
- Ymatebion y cynulleidfaoedd.
- Cymhariaeth â pherfformiad arall.
- Cyfeiriadau at olygfeydd/ddigwyddiadau penodol gyda'r cynyrchiadau.
- Cyfeiriadau at feirniadaethau o'r cynyrchiadau a welwyd.

**LEFELAU CYRHAEDDIAD DA2 (AA2 ac AA3)**
**Adrannau A a B**

| | AA2 | | AA3 |
|---|---|---|---|
| **Marc / 40** | **Dangos gwybodaeth am agweddau ymarferol a damcaniaethol ar ddrama gan ddefnyddio terminoleg briodol.** | **Marc / 40** | **Dehongli dramâu o wahanol gyfnodau a genres.** |
| 0-5 | Ychydig neu ddim dealltwriaeth o agweddau ymarferol a damcaniaethol. Dim dealltwriaeth o'r broses greadigol. Peth dealltwriaeth o ddatblygiad a rhyngweithio rhwng cymeriadau neu botensial llwyfannu. Ymdriniaeth gyfyngedig iawn o'r cynnwys dangosol. Defnydd cyfyngedig neu ddim defnydd o derminoleg. Mae gwallau gramadeg, sillafu ac atalnodi'n llesteirio'r ystyr. | 0-5 | Ychydig iawn neu ddim dealltwriaeth o arddulliau neu gyd-destun hanesyddol neu ddisgwyliadau'r genre.<br>Dim dehongli/dadansoddi go iawn – mae'n dibynnu ar ddisgrifio. Dim dealltwriaeth o themâu, cymeriadu neu lwyfannu.<br>Ychydig neu ddim defnydd o'r testun. |
| 6-8 | Dealltwriaeth gyfyngedig iawn o agweddau ymarferol a damcaniaethol. Dealltwriaeth gyfyngedig iawn o'r broses greadigol. Dealltwriaeth gyfyngedig iawn o ddatblygiad a rhyngweithio rhwng cymeriadau neu botensial llwyfannu.<br>Ymdriniaeth gyfyngedig o'r cynnwys dangosol.<br>Defnydd cyfyngedig o derminoleg.<br>Gwallau gramadeg, sillafu ac atalnodi cyson ond mae'r cyfathrebu'n glir ar y cyfan. | 6-8 | Dealltwriaeth gyfyngedig iawn o arddulliau neu gyfnodau, cyd-destun hanesyddol neu ddisgwyliadau'r genre. Dehongli/dadansoddi arwynebol.<br>Dealltwriaeth gyfyngedig iawn o themâu, cymeriadu neu lwyfannu.<br>Defnydd cyfyngedig iawn o'r testun. |
| 9-11 | Dealltwriaeth gyfyngedig o agweddau ymarferol a damcaniaethol.<br>Dealltwriaeth gyfyngedig o'r broses greadigol. Dealltwriaeth gyfyngedig o ddatblygiad a rhyngweithio rhwng cymeriadau a photensial llwyfannu. Peth ymdriniaeth o'r cynnwys dangosol ond diffyg dyfnder.<br>Peth defnydd o derminoleg gywir.<br>Gwallau gramadeg, sillafu ac atalnodi. | 9-11 | Dealltwriaeth gyfyngedig o arddulliau cyfnodau, cyd-destun hanesyddol neu ddisgwyliadau'r genre.<br>Peth dehongli/dadansoddi diddorol.<br>Dealltwriaeth gyfyngedig o themâu, cymeriadu a llwyfannu.<br>Peth defnydd o'r testun i enghreifftio'r ateb. |
| 12-14 | Dealltwriaeth ddigonol o agweddau ymarferol a damcaniaethol.<br>Dealltwriaeth ddigonol o gymeriadu a llwyfannu gyda rhai syniadau diddorol.<br>Dealltwriaeth ddigonol o'r broses greadigol. Dealltwriaeth ddigonol o ddatblygiad a rhyngweithio rhwng cymeriadau a photensial llwyfannu.<br>Ymdriniaeth ddigonol o'r cynnwys dangosol yn eithaf manwl.<br>Defnydd o derminoleg yn gywir ar y cyfan.<br>Rhai gwallau gramadeg, atalnodi a sillafu. | 12-14 | Dealltwriaeth ddigonol o arddulliau cyfnodau, cyd-destun hanesyddol neu ddisgwyliadau'r genre.<br>Peth dehongli/dadansoddi da a diddorol.<br>Dealltwriaeth ddigonol o themâu, cymeriadu a llwyfannu.<br>Defnydd digonol o'r testun. |
| 15-17 | Dealltwriaeth dda a chlir o agweddau ymarferol a damcaniaethol.<br>Dealltwriaeth dda iawn o ddatblygiad cymeriadau, rhyngweithio a llwyfannu gyda syniadau diddorol. Dealltwriaeth dda iawn o'r broses greadigol.<br>Ymdriniaeth fanwl o'r cynnwys dangosol yn fanwl.<br>Defnydd cywir o derminoleg.<br>Gwallau gramadeg, atalnodi a sillafu o dro i dro. | 15-17 | Dealltwriaeth dda o arddulliau cyfnodau, cyd-destun hanesyddol neu ddisgwyliadau'r genre.<br>Dehongli/dadansoddi da a diddorol.<br>Dealltwriaeth dda o themâu, cymeriadu a llwyfannu.<br>Defnydd da o'r testun. |
| 18-20 | Dealltwriaeth ardderchog o agweddau ymarferol a damcaniaethol.<br>Dealltwriaeth ardderchog o ddatblygiad cymeriadau a rhyngweithio. Syniadau llwyfannu ardderchog, cysyniadau diddorol a dychmygus. Ymdriniaeth ragorol a manwl gywir o'r cynnwys dangosol.<br>Dealltwriaeth ardderchog o'r broses greadigol.<br>Ychydig iawn neu ddim gwallau gramadeg, atalnodi a sillafu. | 18-20 | Dealltwriaeth ardderchog o arddulliau cyfnod, cyd-destun hanesyddol neu ddisgwyliadau'r genre.<br>Dehongli/dadansoddi ardderchog.<br>Dealltwriaeth ardderchog o themâu, cymeriadu a llwyfannu.<br>Defnydd ardderchog o'r testun. |

**LEFELAU CYRHAEDDIAD DA2 (AA4)**

**ADRAN C**

| **Marciau / 40** | **AA4**<br><br>**Dod i farn feirniadol a chloriannu theatr fyw** |
|---|---|
| 0-11 | Prin y ceir ymgysylltu â'r perfformiad a welwyd. Mae'n dibynnu'n drwm ar ddisgrifio a phwyntiau amherthnasol. Prin y trafodir cynnwys mynegol. Prin y mynegir barn bersonol a phrin y trafodir ymateb y gynulleidfa. Prin y cyfeirir at berfformiadau eraill a welwyd. |
| 12-17 | Trafodaeth gyfyngedig iawn o'r perfformiad a welwyd. Gorddibyniaeth ar ddisgrifio. Rhai pwyntiau dadansoddol perthnasol.<br>Trafodaeth gyfyngedig iawn o'r pwyntiau yn y cynnwys mynegol. Mynegiant cyfyngedig iawn o farn bersonol. Trafodaeth gyfyngedig iawn o ymateb y gynulleidfa. Cyfeirio cyfyngedig iawn at berfformiadau eraill a welwyd. |
| 18-23 | Trafodaeth gyfyngedig o'r perfformiad a welwyd. Rhai pwyntiau dadansoddol ond tuedd i droi'n ôl at ddisgrifio ac adrodd y stori.<br>Trafodaeth gyfyngedig o'r cynnwys mynegol. Cyfeirio cyfyngedig at farn bersonol. Trafodaeth gyfyngedig o ymateb y gynulleidfa. Cyfeirio cyfyngedig at berfformiadau eraill a welwyd. |
| 24-29 | Dealltwriaeth ddigonol o sut mae perfformiad yn gweithio. Pwyntiau dadansoddol da ond heb eu datblygu'n ddigon manwl bob amser. Yn cwmpasu'r cynnwys mynegol yn ddigonol. Peth barn bersonol yn dod i'r amlwg. Peth trafodaeth o ymateb y gynulleidfa. Rhai pwyntiau ychydig yn arwynebol. Rhai cyfeiriadau at berfformiadau eraill a welwyd. |
| 30-35 | Dealltwriaeth dda o sut mae perfformiad yn gweithio. Pwyntiau dadansoddol da wedi'u datblygu'n eithaf manwl. Yn cwmpasu'r cynnwys mynegol yn dda. Rhai cyfeiriadau at farn bersonol ond gellid eu datblygu'n fanylach. Rhai cyfeiriadau da at berfformiadau eraill a welwyd. Dealltwriaeth dda o ymateb y gynulleidfa i'r perfformiad. |
| 36-40 | Dealltwriaeth ardderchog o sut mae perfformiad yn gweithio. Pwyntiau dadansoddol ardderchog wedi'u datblygu'n eithaf manwl. Yn dangos gallu beirniadol ardderchog ac annibyniaeth barn. Yn cwmpasu pob un o'r pwyntiau yn y cynnwys mynegol yn fanwl iawn. Mynegir barn feirniadol glir ac aeddfed. Dealltwriaeth ardderchog o ymateb y gynulleidfa i gynhyrchiad. Cyfeiriadau ardderchog a pherthnasol at berfformiadau eraill. |

Caiff arholwyr eu hatgoffa mai canllaw yn unig yw hwn ac na fydd pob un o'r ymgeiswyr yn cwmpasu pob un o'r pwyntiau. Dylid gwobrwyo atebion arloesol a dychmygus sy'n dangos dealltwriaeth glir o'r sgiliau uchod.

## TAG DRAMA AC ASTUDIAETHAU THEATR

## CYNLLUN MARCIO DA4 – IONAWR 2012

Dylai arholwyr nodi y dylen nhw fod yn hyblyg yn eu dull o ymdrin ag atebion. Mae'r cynnwys dangosol yn ganllaw ynghylch yr hyn y gallai ymgeiswyr ei gynnwys yn eu hatebion. Gallai rhai ymgeiswyr ymdrin â'r cwestiwn mewn ffordd wahanol. Mae angen i'r atebion hyn gael eu marcio'n gadarnhaol.

Yn y tair adran, bydd marciau'n seiliedig ar y gridiau lefelau cyrhaeddiad sy'n dilyn.

### ADRAN A

**C.1** ***Electra***

**Llwyfannu**

- Cyfeirio testunol.
- Cyfeirio at gynyrchiadau a welwyd/drafodwyd.
- Cyfeirio at waith yn y dosbarth.
- Disgrifiad o gysyniad y dyluniad, e.e. arddull set, math o lwyfan, arddull perfformiwr.
- Cyfeirio at y cynhyrchiad gwreiddiol.
- Cyfnod y cynhyrchiad.
- Cyd-destun hanesyddol – arddull theatraidd y cynhyrchiad gwreiddiol.
- Cyfeirio at lwyfannu golygfeydd allweddol.
- Goleuo – arddull goleuo wedi'i gysylltu â chysyniad y dyluniad.
- Gwisgoedd – arddull gwisgoedd wedi'i gysylltu â chysyniad y dyluniad
- Cyfiawnhau syniadau/dylanwadau.
- Heriau dylunio y testun.

**C.2** ***All's well that ends well***

**Llwyfannu**

- Cyfeirio testunol.
- Cyfeirio at gynyrchiadau a welwyd/drafodwyd.
- Cyfeirio at waith yn y dosbarth.
- Disgrifiad o gysyniad y dyluniad, e.e. arddull set, math o lwyfan, arddull perfformiwr.
- Cyfeirio at y cynhyrchiad gwreiddiol.
- Cyfnod y cynhyrchiad.
- Cyd-destun hanesyddol – arddull theatraidd y cynhyrchiad gwreiddiol.
- Cyfeirio at lwyfannu golygfeydd allweddol.
- Goleuo – arddull goleuo wedi'i gysylltu â chysyniad y dyluniad.
- Sain – arddull sain wedi'i gysylltu â chysyniad y dyluniad.
- Gwisgoedd – arddull gwisgoedd wedi'i gysylltu â chysyniad y dyluniad
- Cyfiawnhau syniadau/dylanwadau.
- Heriau dylunio y testun.

**C.3** ***D'Ewythr Fania***

**Llwyfannu**

- Cyfeirio testunol.
- Cyfeirio at gynyrchiadau a welwyd/drafodwyd.
- Cyfeirio at waith yn y dosbarth.
- Disgrifiad o gysyniad y dyluniad, e.e. arddull set, math o lwyfan, arddull perfformiwr.
- Cyfeirio at y cynhyrchiad gwreiddiol.
- Cyfnod y cynhyrchiad.
- Cyd-destun hanesyddol – arddull theatraidd y cynhyrchiad gwreiddiol.
- Cyfeirio at lwyfannu golygfeydd allweddol.
- Goleuo – arddull goleuo wedi'i gysylltu â chysyniad y dyluniad.
- Sain – arddull sain wedi'i gysylltu â chysyniad y dyluniad.
- Gwisgoedd – arddull gwisgoedd wedi'i gysylltu â chysyniad y dyluniad
- Cyfiawnhau syniadau/dylanwadau.
- Heriau dylunio y testun.

## ADRAN B

**C.4** ***Yr Opera Pishyn Tair***

**Macheath**

- Cyfeirio testunol.
- Cyfeirio at gynyrchiadau a welwyd/drafodwyd.
- Cyfeirio at waith ymarferol yn y dosbarth.
- Cyfeirio at heriau lleisiol.
- Cyfeirio at symud.
- Cyfeirio at ryngweithiad cymeriadau.
- Cyfeirio at arddull perfformio gwreiddiol.
- Cyfeirio at ymateb y gynulleidfa i'r cymeriad.
- Macheath yn gymeriad canolog y ddrama.
- Craidd difoeseg y ddrama.
- Mae Macheath yn gweld mantais ym mhopeth mae e'n ei wneud.
- Agwedd rywiaethol tuag at ferched a'u rôl.
- Agwedd fwlio tuag at aelodau eraill y gang.
- Mae'n defnyddio arian i ennill mantais a statws.
- Her y caneuon.
- Natur episodaidd ei olygfeydd.
- Cyfeirio at syniad Brechtaidd o gymeriad.
- Gwrtharwr – cymhariaeth â Peachum – y ddau'n defnyddio'r system i'w mantais nhw.
- Dewis o dair golygfa.

**C.5** ***Rhith y Rhosyn***

**Rosa**

- Cyfeirio testunol.
- Cyfeirio at gynyrchiadau a welwyd/drafodwyd.
- Cyfeirio at waith ymarferol yn y dosbarth.
- Cyfeirio at heriau lleisiol.
- Cyfeirio at symud.
- Cyfeirio at ryngweithiad cymeriadau.
- Cyfeirio at arddull perfformio gwreiddiol.
- Cyfeirio at ymateb y gynulleidfa i'r cymeriad.
- Merch deuddeg oed Serafina.
- Cymeriad bywiog – mae'n dibynnu ar ei mam.
- Mae ganddi olygfeydd emosiynol anodd – diwedd Act 1 Golygfa 3.
- Yn Act 1 Golygfa 4 mae hi dair blynedd yn hŷn – her i actores.
- Mae ganddi gywilydd o'i chefndir a'i mam.
- Mae ei huchelgeisiau yn mynd y tu hwnt i'r pentref – mae hi'n trin ei mam â dirmyg.
- Perthynas bwysig â Jack – mae'n ceisio creu argraff arno – yn fflyrtiog iawn.
- Yn ceisio cuddio beiau ei mam.
- Ar ddiwedd Act 1 – yn hapus oherwydd bendith ei mam.
- Mae taith Rosa'n drasig a thrist – mae ei mam yn dominyddu ei bywyd.
- Mae hi'n mynd yn emosiynol iawn yn Act 3 Golygfa 2.
- Pwysigrwydd y berthynas ganolog â Serafina.
- Dewis o dair golygfa.

**C.6** ***Un o Nifer***

**Salter**

- Cyfeirio testunol.
- Cyfeirio at gynyrchiadau a welwyd/drafodwyd.
- Cyfeirio at waith ymarferol yn y dosbarth.
- Cyfeirio at heriau lleisiol.
- Cyfeirio at symud.
- Cyfeirio at ryngweithiad cymeriadau.
- Cyfeirio at arddull perfformio gwreiddiol.
- Cyfeirio at ymateb y gynulleidfa i'r cymeriad.
- Cymeriad canolog y ddrama.
- Yn foesegol amwys – perthynas gymhleth â'r cymeriadau eraill.
- Yn newid ei safle moesol yn gyson gyda'i feibion.
- Mae'n ceisio ei dynnu ei hun i ffwrdd o unrhyw benderfynu.
- Mae'n gwneud y gynulleidfa'n ansicr ynghylch eu teimladau tuag ato.
- Rhaid i Salter wynebu ei ffaeleddau fel rhiant.
- Euogrwydd ynghylch y ffaith ei fod wedi gwrthod ei gyntaf-anedig.
- Mae fel petai'n sylweddoli bod ganddo euogrwydd mawr.
- Heriau'r areithiau hir.
- Dewis o dair golygfa.

**C.7** ***Lysh***

**Ifor**

- Cyfeirio testunol.
- Cyfeirio at gynyrchiadau a welwyd/drafodwyd.
- Cyfeirio at waith ymarferol yn y dosbarth.
- Cyfeirio at heriau lleisiol.
- Cyfeirio at symud.
- Cyfeirio at ryngweithiad cymeriadau.
- Cyfeirio at arddull perfformio gwreiddiol.
- Cyfeirio at ymateb y gynulleidfa i'r cymeriad.
- Heriau paratoi cymeriad sydd yn y bôn yn ymson.
- Heriau corfforol y cymeriad – glynu wrth y rhaff.
- Natur berfformio rhai o'r adrannau.
- Anhawster cyflwyno personoliaeth dameidiog.
- Diwedd trasig y cymeriad.
- Dewis o dair golygfa.

**ADRAN C**

**C.8** ***A Bridge to the Stars*** **– Mankell**

- Cynllun llawr/lleoliad y gynulleidfa.
- Math o lwyfan.
- Lleoliad clir dodrefn/props/set.
- Ciwiau goleuo – wedi'u nodi yn y golofn briodol.
- Ciwiau sain – wedi'u nodi yn y golofn briodol.
- Gwisgoedd – esboniad clir ar gyfer dewisiadau.
- Dewis o awyrgylch/liw wedi'i gyfiawnhau.
- Lleoliad amwys – sut mae'n cael ei ddehongli?
- Dau gymeriad sy'n siarad – dau gymeriad nad ydynt yn siarad.
- Wedi'i leoli yn Sweden yn y gaeaf.
- Cyfle ar gyfer cyflyrau goleuo – goleuadau arbennig ar siaradwyr/gaeaf/gallai newid ar gyfer y cyswllt â'r adran ar y gwanwyn/golau ar dai/gymeriadau gwahanol.
- Sain – creu awyrgylch gaeaf â sain/cerddoriaeth agoriadol/cerddoriaeth ar y diwedd.
- Awyrgylch – iasol/annaearol/oer/rhywfaint o gynhesrwydd yn yr adran ar y gwanwyn.
- Gwisg – haniaethol/duon gydag un darn gwisg.
- Dim cyfnod clir – wedi'i leoli mewn lle nad yw'n benodol.
- Symud – ydy'r cymeriadau'n symud o gwmpas y llwyfan i gyflwyno'r cymeriadau a enwir/ydyn nhw'n sefyll mewn goleuadau arbennig a'r cymeriadau eraill yn symud yn unol â'u geiriau nhw?
- Safleoedd ar y dechrau ac ar y diwedd gan gynnwys cyfarwyddyd penodol drwy gydol yr olygfa.

**LEFELAU CYRHAEDDIAD DA4**

**Adrannau A a B**

| Marciau | AA3 – Dehongli dramâu o wahanol gyfnodau a genres |
|---|---|
| **0-5** | Ni roddir sylw i'r cwestiwn mewn rhannau helaeth o'r ymateb. Dangosir dealltwriaeth gyfyngedig iawn. Ymateb personol neu ddehongli perthnasol cyfyngedig iawn. Mae gwallau gramadeg, atalnodi a sillafu'n amharu ar yr ystyr ar brydiau. |
| **6-8** | Rhoddir sylw rhannol i'r cwestiwn. Dealltwriaeth gyfyngedig o arddulliau, cyd-destun hanesyddol neu ddisgwyliadau'r genre. Dealltwriaeth gyfyngedig o themâu, cymeriadau neu lwyfannu. Dealltwriaeth gyfyngedig o gyd-destun theatraidd a disgwyliadau'r gynulleidfa. Cyfeirio cyfyngedig a heb fod yn berthnasol bob amser i gynyrchiadau a welwyd. Peth tystiolaeth o ymateb personol a dehongli'r testun. Defnyddir terminoleg yn gyfyngedig a heb fod yn briodol bob amser. Gwallau gramadeg, atalnodi a sillafu cyson ond mae'r cyfathrebu'n glir ar y cyfan. |
| **9-11** | Rhoddir sylw i'r cwestiwn i raddau helaeth ac mae'r ymateb yn dangos peth dealltwriaeth o arddulliau, cyd-destun hanesyddol neu ddisgwyliadau'r genre; themâu, cymeriadau neu lwyfannu; peth dealltwriaeth o gyd-destun theatraidd a disgwyliadau'r gynulleidfa. Rhai cyfeiriadau perthnasol at gynyrchiadau a welwyd a dylanwadau posibl. Ymateb personol a dehongli'n amlwg ond heb eu cyfiawnhau bob amser drwy gyfeirio at y testunau. Peth defnydd o derminoleg gywir. Gwallau gramadeg, atalnodi a sillafu. |
| **12-14** | *Naill ai*, ateb strwythuredig yn dangos: dealltwriaeth gadarn o arddulliau, cyd-destun hanesyddol neu ddisgwyliadau'r genre; dealltwriaeth gadarn o themâu, cymeriadau neu lwyfannu. *Neu*, ymateb llai cyson yn dangos dealltwriaeth dda mewn rhai meysydd (arddulliau, cyd-destun hanesyddol, genres/themâu, llwyfannu cymeriadau) ond gwendidau mewn meysydd eraill. Cyfeiriadau priodol at gynyrchiadau a welwyd a pheth ystyriaeth i ddulliau eraill/dylanwadau posibl. Cefnogir yr ymateb personol a'r dehongli ar y cyfan gan gyfeiriadau at y testun. Mae'r defnydd o derminoleg yn gywir ar y cyfan. Rhai gwallau gramadeg, atalnodi a sillafu. |
| **15-17** | Dealltwriaeth dda o arddulliau, cyd-destun hanesyddol neu ddisgwyliadau'r genre. Dealltwriaeth dda o themâu, cymeriadau neu lwyfannu. Dealltwriaeth dda o gyd-destun theatraidd a disgwyliadau'r gynulleidfa. Cyfeiriadau priodol wedi'u cefnogi'n dda at gynyrchiadau a welwyd a gwerthfawrogir y ffordd y gellir gwneud gwahanol benderfyniadau artistig. Tystiolaeth o ymateb a dehongli personol wedi'i chefnogi gan gyfeiriadau at y testun. Defnydd cywir o derminoleg. Mae'r mynegiant yn glir ond ceir gwallau gramadeg, atalnodi a sillafu o bryd i'w gilydd. |
| **18-20** | Dealltwriaeth ardderchog o arddulliau, cyd-destun hanesyddol neu ddisgwyliadau'r genre. Dealltwriaeth ardderchog o themâu, cymeriadau neu lwyfannu. Dealltwriaeth ardderchog o gyd-destun theatraidd a disgwyliadau'r gynulleidfa. Cyfeiriadau craff wedi'u hintegreiddio'n dda at gynyrchiadau a welwyd a gafael dda ar y sail ar gyfer gwahanol benderfyniadau a dehongliadau artistig. Tystiolaeth drwyddi draw o ymateb a dehongli personol. Defnydd priodol o derminoleg bob amser. Mae'r mynegiant yn cyd-fynd â'r ddealltwriaeth gydag ychydig iawn neu ddim gwallau gramadeg, atalnodi a sillafu. |

## LEFELAU CYRHAEDDIAD ADRAN C

| **AA2 –** Dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o agweddau ymarferol a damcaniaethol ar ddrama a'r theatr gan ddefnyddio terminoleg briodol. | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Marciau** | **Cynllun llawr/llwyfan** | **Nodweddion y cynhyrchiad** | **Symudiadau'r cymeriadau** | **Goleuo a sain** |
| 1-3 | Ychydig neu ddim manylion yn y dyluniadau o'r set. Mae'r syniadau'n anymarferol ac nid ydynt yn cwmpasu unrhyw agweddau ar y cynnwys mynegol. | Ychydig neu ddim manylion am y llwyfannu, yr awyrgylch, y lliw neu'r gwisgoedd. Ychydig neu ddim egluro neu gyfiawnhau'r dehongliad. | Ychydig neu ddim manylion yn y set o symudiadau. Ychydig o'r cynnwys mynegol sy'n cael ei gwmpasu. Ychydig neu ddim egluro neu gyfiawnhau'r dehongliad. | Ychydig neu ddim manylion yn y set o giwiau sain a goleuo. Ychydig neu ddim egluro neu gyfiawnhau'r dehongliad. |
| 4-5 | Rhai syniadau y byddai modd eu defnyddio ar gyfer y set a defnyddio'r lle. Nid yw'r agweddau a nodir bob amser yn cael eu trin yn ddigon manwl. | Rhai syniadau y byddai modd eu defnyddio ar gyfer llwyfannu, awyrgylch, lliw a'r gwisgoedd. Ceir egluro a chyfiawnhau'r dehongliad yn ddigonol gan ddefnyddio terminoleg sylfaenol. | Rhai syniadau y byddai modd eu defnyddio ar gyfer symudiadau'r cymeriadau er y gall rhai fod yn aneglur. Ceir peth tystiolaeth o egluro a chyfiawnhau'r dehongliad gan ddefnyddio terminoleg sylfaenol. | Rhai syniadau y byddai modd eu defnyddio ar gyfer sain a goleuo. Nodir rhai agweddau ar y cynnwys mynegol. Ceir peth tystiolaeth o egluro a chyfiawnhau'r dehongliad gyda therminoleg sylfaenol. |
| 6-7 | Set dda o syniadau sy'n dangos peth gwreiddioldeb. Bydd y cynllun llawr wedi'i labelu'n glir a bydd pob un o'r gofynion dylunio wedi'u cynnwys. | Disgrifiad da o'r llwyfannu, awyrgylch, lliw a'r gwisgoedd wedi'i gysylltu'n glir â'r syniadau am y set. Defnydd da o derminoleg briodol a chywir a chyfeirio at ddamcaniaethau dramatig sy'n sail i'r penderfyniadau a wnaed. | Set dda o symudiadau clir wedi'i gosod ar gyfer pob cymeriad. Rhoddir sylw i bob agwedd ar y cynnwys mynegol. Defnydd da o derminoleg briodol a chywir sy'n sail i'r penderfyniadau a wnaed. | Set dda o syniadau sain a goleuo wedi'u gosod allan yn glir ar gyfer cynhyrchu'r olygfa gan roi sylw i bob agwedd ar y cynnwys mynegol. Defnydd da o derminoleg briodol a chywir sy'n sail i'r penderfyniadau a wnaed. |
| 8-10 | Cynllun ardderchog a hynod gydlynol yn llawn syniadau manwl iawn. Labelu gwreiddiol ac ysgogol i roi ystyr priodol, gan gwmpasu pob agwedd ar ddylunio'n drylwyr. | Disgrifiad ardderchog o lwyfannu, awyrgylch, lliw a gwisgoedd. Dangosir peth gwreiddioldeb a dealltwriaeth glir o'r olygfa. Dangosir craffter wrth egluro a chyfiawnhau penderfyniadau a wnaed gyda defnydd ardderchog o derminoleg a chyfeirio at ddamcaniaethau dramatig. | Set ardderchog a manwl o symudiadau llwyfan. Wedi'i gosod allan yn fanwl ac yn rhagorol. Dangosir gwreiddioldeb a dychymyg. Defnydd ardderchog o derminoleg briodol a chywir sy'n sail i'r penderfyniadau a wnaed. | Set ardderchog o syniadau sain a goleuo medrus iawn, wedi'i gosod allan yn glir iawn ac yn effeithiol ar gyfer cynhyrchu'r olygfa. Defnydd ardderchog o derminoleg briodol a chywir a chyfeirio at ddamcaniaethau dramatig. |

CBAC
245 Rhodfa'r Gorllewin
Caerdydd  CF5 2YX
Ffôn:  029 2026 5000
Ffacs:  029 2057 5994
E-bost:  arholiadau@cbac.co.uk
gwefan:  www.cbac.co.uk